Croeso i ddosbarth Pysgod Chwim.

Mae 29 o blant yn ein dosbarth ac mae'r plant i gyd yn meithrin rhan amser. Maent yn mynychu'r ysgol rhwng 9y.b. tan 11:45 y.b. Mae'r plant yn cael eu haddysgu trwy ddull y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-7 mlwydd oed sy'n mynychu ysgolion yng Nghymru. Mae'r dulliau addysgu yn canolbwyntio ar ddatblygiad cyfannol y plentyn - mae'r plentyn yn ganolog i'r dysgu.

Mae'r addysg a gweithgareddau yn cwmpasu anghenion y plentyn, a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae strwythuredig, mae'r plentyn yn meithrin amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau unigryw a gwerthfawr.

Mae'r holl gyfleoedd hyn yn hanfodol ar gyfer y plentyn gan eu bod yn cyfrannu at ddatblygiad y plentyn yn ei gyfanrwydd.

Pob bore mae'r plant yn cael llaeth a chyfle i fwyta ffrwyth. Mae'r dewis o ddod â ffrwyth ei hun o adref neu gall yr ysgol darparu trwy siôp ffrwythau'r ysgol.

Addysg Gorfforol

Darperir gwersi addysg gorfforol i blant meithrin ar fore dydd Mawrth. Nid oes rhaid i'r plant wisgo cit ymarfer corff ond os ydych yn dymuno iddynt, mae hynny'n iawn. Mae'r plant fel arfer yn tynnu eu hesgidiau a sanau ac yn mynd i'r neuadd ysgol lle mae'r wers yn cael ei gynnal.

Dydd Iau - tu allan

Ar fore dydd Iau mae'r plant yn mynd allan i wneud amryw o weithgareddau. Bydd rhai o'r gweithgareddau yma'n fwdlyd/ gwlyb felly gofynnwn yn garedig i blant ddod ag esgidiau glaw a hen ddillad ar y diwrnod hynny.